**Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /This document is available in English**

# Cynllun Derbyniadau Cydlynol

# CYNGOR CAERDYDD

# ADDYSG A DYSGU GYDOL OES

**Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /This document is available in English**

## Cynnwys

**1. Cyflwyniad**
- 1.1 Cynllun Cydlynol
- 1.2 Cyfranogwyr yn y Cynllun

**2. Cyflwyno Cais**
- 2.1 Sut i Wneud Cais
- 2.2 Ceisiadau Ar Amser (a ystyrir yn ystod y 'cylch derbyn arferol')
- 2.3 Ceisiadau Hwyr
- 2.4 Newid ysgol yn Ystod y Flwyddyn Academaidd (derbyn yn ystod y flwyddyn)

**3. Derbyn i ysgolion cynradd (Blwyddyn Dderbyn)**
- 3.1 Y Broses Ddyrannu
- 3.2 Y Broses Gynnig
- 3.3 Rhestrau Aros

**4. Derbyn i ysgolion uwchradd (Blwyddyn 7)**
- 4.1 Y Broses Ddyrannu
- 4.2 Y Broses Gynnig
- 4.3 Rhestrau Aros

**5. Amserlen derbyniadau cydlynol ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2027/2028**

# 1 Cyflwyniad

## 1.1 Cynllun Cydlynol

Mae'n ofynnol i Gyngor Caerdydd, dan Rheoliadau Addysg (Cydlynu Trefniadau Derbyn i Ysgolion a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024 ("Rheoliadau 2024") gael cynllun cymhwyso i gydlynu'r broses dderbyn ar gyfer pob ysgol a gynhelir yng Nghaerdydd.

Nid yw'r cynllun yn berthnasol i geisiadau am leoedd meithrin, lleoedd chweched dosbarth, na lleoedd mewn ysgolion arbennig a gynhelir. Nid yw'r cynllun yn berthnasol i geisiadau a wneir ar ôl dyddiad cau'r rowndiau neu gylchoedd derbyn arferol.

Bwriad trefniadau derbyniadau cydlynol yw symleiddio'r broses derbyn i ysgolion drwy ganiatáu i ymgeiswyr wneud cais i ysgolion cymunedol, ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir gan ddefnyddio un ffurflen gais gyffredin a sicrhau eu bod ond yn cael un cynnig am le ysgol.

Mae'r cynllun ar wahân i Bolisi Derbyn i Ysgolion Cyngor Caerdydd, sy'n gosod y trefniadau derbyn ar gyfer ysgolion cymunedol ac ysgolion gwirfoddol a reolir yng Nghaerdydd.

Nid effeithir ar hawliau cyrff llywodraethu ysgolion sefydledig a rhai gwirfoddol a gynorthwyir i ymgynghori ar eu trefniadau derbyn eu hunain a'u pennu ac i raddio trefn ymgeiswyr yn erbyn eu meini prawf gordanysgrifio eu hunain wrth gael eu cynnwys yn y cynllun derbyniadau cydlynol.

## 1.2 Pwy sy’n Rhan o’r Cynllun

Cyngor Caerdydd fel yr Awdurdod Derbyn ar gyfer pob ysgol gymunedol, a’r un ysgol wirfoddol a reolir, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg.

Yr Awdurdodau Derbyn ar gyfer yr ysgolion cynradd gwirfoddol a gynorthwyir canlynol yng Nghaerdydd.

Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru yr Holl Seintiau
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Childs
Ysgol Gynradd Gatholig Crist y Brenin
Ysgol Gynradd Gatholig y Teulu Sanctaidd
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llandaf
Ysgol Gynradd Gatholig Sant Alban
Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Bernadette
Ysgol Gynradd Gatholig Sain Cadog
Ysgol Gynradd Gatholig Sant Cuthbert
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant
Ysgol Gynradd Yr Eglwys yng Nghymru Sain Ffagan
Ysgol Gynradd Gatholig Sant Ffransis
Ysgol Gynradd Gatholig Sant John Lloyd
Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseff

Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru'r Forwyn Fair
Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica
Ysgol Gynradd Gatholig Sant Padrig
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sant Paul
Ysgol Gynradd Gatholig Sant Pedr
Ysgol Gynradd Gatholig Sant Philip Evans
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Tredegarville

Yr Awdurdodau Derbyn ar gyfer yr ysgolion uwchradd sefydledig a gwirfoddol a gynorthwyir canlynol yng Nghaerdydd.

Ysgol Uwchradd Gatholig Corpus Christi
Ysgol Uwchradd Mair Ddihalog
Ysgol Uwchradd Gatholig Illtud Sant
Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Teilo Sant
Ysgol Uwchradd Yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf
Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd (Ysgol Sefydledig).

Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru sy'n Awdurdodau Derbyn ar gyfer ysgolion a gynhelir.

## 2. Cyflwyno Cais

### 2.1 Sut i Wneud Cais

Rhaid i bob rhiant a gofalwr lenwi'r ffurflen gais gyffredin ar gyfer yr Awdurdod Lleol lle mae'r plentyn yn byw, a elwir yn Awdurdod Lleol 'cartref'. Gall rhieni a gofalwyr y mae eu plant yn preswylio yng Nghaerdydd, fynegi dewis ar gyfer eu plentyn:

- I'w derbyn i ysgol o fewn ardal Awdurdod Lleol Caerdydd; neu
- I'w derbyn i ysgol o fewn ardal Awdurdod Lleol arall.

Mae'r Cyngor yn derbyn ceisiadau drwy Wasanaeth Ymgeisio Ar-lein y Cyngor neu drwy lenwi ffurflen dewis a’i chyflwyno yn un o Hybiau’r Cyngor, ei hanfon drwy e-bost at derbyniysgolion@caerdydd.gov.uk neu ei phostio i Derbyn i Ysgolion, Ystafell 463, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW. Mae copi o'r ffurflen gais gyffredin ar gael ar wefan y Cyngor. Bydd copïau papur hefyd yn cael eu rhoi ar gais gan y Tîm Derbyn i Ysgolion. Nid yw'r Cyngor yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb am golli data o ganlyniad i'r dull a ddewiswyd gan yr ymgeisydd i ddarparu'r wybodaeth.

### 2.2 Ceisiadau Ar Amser (a ystyrir yn ystod y 'cylch derbyn arferol')

Rhaid i rieni a gofalwyr sy'n preswylio yng Nghaerdydd ddefnyddio'r ffurflen gais gyffredin i fynegi dewis ar gyfer unrhyw ysgol a gynhelir yng Nghaerdydd. Gallan nhw hefyd fynegi dewis ar gyfer ysgol a gynhelir mewn Awdurdod Lleol cyfagos. Ni ellir defnyddio'r ffurflen gais gyffredin i fynegi dewis ar gyfer ysgol annibynnol.

Rhaid cyflwyno pob cais i'r Tîm Derbyn i Ysgolion erbyn y dyddiad cau cyhoeddedig. Bydd unrhyw geisiadau a dderbynnir ar ôl yr amser hwn yn cael eu hystyried yn 'geisiadau hwyr' a byddant yn cael eu hystyried ochr yn ochr â cheisiadau 'ar amser' aflwyddiannus mewn cylchoedd derbyn diweddarach.

Efallai y bydd gofyn i rieni a gofalwyr sy'n gwneud cais am ysgol wirfoddol a gynorthwyir hefyd gyflwyno gwybodaeth atodol i'r ysgol unigol. Bydd y gofyniad yn cael ei nodi yn nhrefniadau derbyn yr ysgol berthnasol. Rhaid cyflwyno'r wybodaeth hon yn uniongyrchol i Gorff Llywodraethu'r ysgol.

Rhaid i rieni a gofalwyr sy'n preswylio y tu allan i Gaerdydd sydd eisiau gwneud cais am leoedd mewn ysgolion yng Nghaerdydd wneud hynny gan ddefnyddio ffurflen gais gyffredin a roddwyd iddynt gan yr Awdurdod Lleol y maent yn preswylio ynddo. Bydd eu Hawdurdod Lleol 'cartref' yn hysbysu Cyngor Caerdydd am unrhyw geisiadau a dderbynnir ar gyfer ysgolion yn eu hardal. Bydd Cyngor Caerdydd yn hysbysu'r Awdurdod Lleol perthnasol am unrhyw geisiadau a dderbynnir ar gyfer plant sy'n preswylio yng Nghaerdydd sy'n gwneud cais am ysgolion y tu allan i Gaerdydd.

Os derbynnir cais ar gyfer ysgol yng Nghaerdydd gan riant neu ofalwr sy'n preswylio mewn Awdurdod Lleol arall, yna bydd yr ymgeisydd yn cael gwybod bod yn rhaid gwneud y cais drwy ei Awdurdod Lleol cartref yn unol â'u cynllun derbyniadau cydlynol.

Bydd gwybodaeth berthnasol sy'n ymwneud â dewis ysgol fel rhan o'r cynllun derbyniadau cydlynol, yn cael ei rhannu'n ddiogel â Chyrff Llywodraethu ysgolion sefydledig a gwirfoddol a gynorthwyir a gydag Awdurdodau Lleol eraill lle gofynnwyd am gael dewis ysgol sefydledig neu wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol yn ardal yr Awdurdod Lleol hwnnw. Mae hyn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

## 2.4 Ceisiadau Hwyr

Bydd ceisiadau a gyflwynir ar ôl y dyddiad cau yn cael eu hystyried fel ceisiadau 'hwyr'. Gellir cyflwyno ceisiadau hwyr ar gyfer ysgolion cymunedol ac ysgolion gwirfoddol a reolir trwy wefan y Cyngor neu drwy ffurflen dewis wedi'i chwblhau a byddant yn cael eu prosesu ochr yn ochr â cheisiadau 'ar amser' aflwyddiannus mewn cylchoedd derbyn diweddarach.

Rhaid cyflwyno ceisiadau hwyr am ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a reolir yn uniongyrchol i'r ysgol.

## 2.5 Newid Ysgol yn Ystod y Flwyddyn Academaidd (Derbyn yn Ystod y Flwyddyn)

Pan fo ceisiadau y tu allan i'r cylch derbyn arferol (cyfeirir at hyn hefyd fel 'trosglwyddo yn ystod y flwyddyn'), bydd Cyngor Caerdydd yn gyfrifol am brosesu ceisiadau ar gyfer ysgolion cymunedol ac ysgolion gwirfoddol a reolir yng Nghaerdydd yn unig.

Bydd angen i rieni a gofalwyr sy'n dymuno gwneud cais am le mewn ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol a gynorthwyir y tu allan i'r cylch derbyn arferol gael ffurflen gais gan yr ysgol. Mae ceisiadau i'r ysgolion hyn yn cael eu hystyried gan Gorff Llywodraethu'r Ysgol.

Bydd angen i rieni a gofalwyr sy'n dymuno gwneud cais am le mewn ysgol mewn Awdurdod Lleol arall y tu allan i'r cylch derbyn arferol wneud cais i'r Awdurdod Lleol hwnnw.

## 3. Derbyn i Ysgol Gynradd (Blwyddyn Derbyn)

Bydd y Ffurflen Gais Gyffredin yn caniatáu i rieni a gofalwyr restru hyd at bum dewis ar gyfer derbyn i flwyddyn Derbyn. Mae'r rhain yn ddewisiadau wedi'u graddio (hy dewis cyntaf, ail ddewis, ac ati) ond mae penderfynu ar leoedd yn erbyn dewisiadau a ffefrir yn cael eu trin yn gyfartal (y Cynllun Dewis Cyfartal). Mewn geiriau eraill, ystyrir y ceisiadau dan y rheolau derbyn ar gyfer pob ysgol unigol ac ni ddefnyddir y drefn y graddiwyd yr ysgol fel maen prawf os yw'r ysgol a ddewiswyd wedi'i gordanysgrifio. Gall rhieni a gofalwyr sy'n dymuno rhestru mwy na phum dewis wneud hynny trwy e-bostio derbyniysgolion@caerdydd.gov.uk.

Pan fo lleoedd ar gael, mae'n rhaid i'r dewis uchaf a nodwyd gael ei fodloni. Pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael, defnyddir y meini prawf gordanysgrifio perthnasol i raddio trefn y ceisiadau. Dim ond y lle ysgol sy'n ddewis uchaf y maent yn gymwys i'w gael sy'n cael ei gynnig i ddisgyblion. Pan ellir cynnig lle i ddisgybl mewn mwy nag un ysgol bydd yn derbyn un cynnig gennym ar gyfer yr ysgol sydd yn y safle uchaf ar y cais.

### 3.1 Y Broses Ddyrannu

Bydd Cyngor Caerdydd yn anfon manylion ceisiadau a wneir gan ymgeiswyr sy'n preswylio yng Nghaerdydd sydd wedi mynegi dewis ysgol mewn ardal Awdurdod Lleol arall at yr Awdurdodau Lleol perthnasol erbyn y Dyddiad Cyfnewid Data Traws-Sirol. Bydd manylion y cais yn cynnwys yr holl wybodaeth a ddarperir gan y rhiant i gefnogi'r cais a safle'r dewis (safle cyntaf, ail, trydydd, pedwerydd neu bumed safle).

Bydd Cyngor Caerdydd yn anfon manylion ceisiadau, lle mae'r ysgol wedi'i rhestru fel dewis, i'r ysgolion cynradd gwirfoddol a gynorthwyir perthnasol yng Nghaerdydd erbyn Dyddiad Anfon Data o fewn y Sir. Bydd manylion y cais yn cynnwys yr holl wybodaeth a ddarperir gan y rhiant i gefnogi'r cais ond **ni fydd** yn cynnwys safle'r dewis (safle cyntaf, ail, trydydd, pedwerydd neu bumed safle). Cyrff Llywodraethu'r ysgolion hyn sy'n gyfrifol am ddefnyddio'r meini prawf gordanysgrifio, os oes mwy o ymgeiswyr na lleoedd, ac hefyd am benderfynu yn ôl pa drefn raddio y cynigir lle i blant.

Bydd Cyrff Llywodraethu'r ysgolion cynradd gwirfoddol a gynorthwyir yn cymhwyso eu trefniadau derbyn cyhoeddedig ac yn darparu'r rhestr wedi'i graddio i Gyngor Caerdydd erbyn Dyddiad Derbyn Data o fewn y Sir. Bydd y rhestr wedi'i graddio yn cynnwys pob ymgeisydd ar gyfer yr ysgol, ni waeth p'un

a yw'r Awdurdod Derbyn yn credu y gellir neu y dylid cynnig lle yn ystod y broses ddyrannu ai peidio.

Bydd y broses ddyrannu yn dechrau pan fydd Cyngor Caerdydd wedi derbyn y rhestr gan bob ysgol gynradd wirfoddol a gynorthwyir. Bydd yr holl ddewisiadau yn cael eu hystyried yn yr un modd yn y lle cyntaf waeth beth fo'u safle. Bydd y safle'n cael ei ddefnyddio i sicrhau bod pob plentyn y gellir cynnig lle iddo yn derbyn un cynnig yn unig ar gyfer yr ysgol sydd yn y safle uchaf y maent yn gymwys i'w mynychu. Bydd unrhyw ymgeisydd y gellir cynnig lle iddo yn ei ysgol ddewis gyntaf yn cael y lle hwnnw wedi ei ddyrannu iddo. Bydd unrhyw ddewisiadau is y gellid fod wedi'u cynnig iddynt hefyd yn cael eu rhyddhau fel eu bod ar gael fel rhan o'r broses ddyrannu i ymgeisydd nad oedd modd cynnig lle yn yr ysgol honno iddo yn flaenorol.

Bydd y broses ddyrannu yn ail-lenwi'n awtomatig y lleoedd hynny sy'n dod ar gael mewn ysgolion sydd wedi'u gordanysgrifio gyda'r ymgeisydd sydd nesaf ar restr yr ysgol honno. Bydd y broses hon yn cael ei chynnal nes bod gan bob ymgeisydd statws cynnig dros dro ar gyfer pob dewis ysgol a restrir ar eu cais ac ni ellir gwneud unrhyw newidiadau pellach. I rai ymgeiswyr efallai na fydd wedi bod yn bosibl cynnig lle yn unrhyw un o'r ysgolion a restrwyd fel dewisiadau ar eu cais.

Erbyn Dyddiad Hysbysu'r Awdurdod Derbyn bydd Cyngor Caerdydd yn hysbysu Awdurdodau Lleol eraill am statws cynnig dros dro'r ceisiadau ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghaerdydd gan ymgeiswyr sy'n preswylio yn ardaloedd yr Awdurdodau Lleol hynny. Bydd Awdurdodau Lleol eraill yn hysbysu Cyngor Caerdydd am statws cynnig dros dro ymgeiswyr sy'n preswylio yng Nghaerdydd ac sydd wedi gwneud cais am ysgol gynradd yn ardal yr Awdurdod Lleol arall erbyn yr un dyddiad.

Gan ddefnyddio'r rhestrau wedi'u graddio a dderbynnir gan ysgolion cynradd gwirfoddol a gynorthwyir yng Nghaerdydd a'r wybodaeth a ddaw i law gan Awdurdodau Lleol eraill, bydd Cyngor Caerdydd yn gweithredu fel a ganlyn:

- Pan fo'r ymgeisydd ond yn gymwys i gael lle yn un o'r ysgolion dewis, dyrennir lle yn yr ysgol honno i'r ymgeisydd
- Pan fo'r ymgeisydd yn gymwys i gael lle mewn dau neu fwy o'r ysgolion dewis, dyrennir lle ym mha ysgol bynnag yw'r dewis uchaf
- Pan nad yw'r ymgeisydd yn gymwys i gael lle yn unrhyw un o'r ysgolion dewis, ni chaiff lle ei ddyrannu

Erbyn Dyddiad Hysbysu yr Awdurdod Derbyn, bydd pob ysgol wirfoddol a gynorthwyir yng Nghaerdydd yn cael gwybod am yr holl gynigion terfynol a wneir hyd at y nifer derbyn ar gyfer pob ysgol. Ni fydd ysgolion yn rhoi gwybod i rieni a gofalwyr am ganlyniadau'r broses ymgeisio.

Pan fydd y broses ddyrannu wedi'i chwblhau, bydd Cyngor Caerdydd yn creu adroddiad o'r ysgolion cynradd cymunedol a gwirfoddol a reolir sydd â lleoedd ar gael o hyd fel y gellir cyhoeddi'r wybodaeth ar y Diwrnod Cynnig a gyrru

copïau o'r adroddiad at rieni plant na chawsant gynnig ysgol a restrwyd fel dewis ar eu cais.

### 3.2 Y Broses Gynnig

Ar y Diwrnod Cynnig Cenedlaethol, bydd Cyngor Caerdydd yn cynnig un lle mewn ysgol gynradd i rieni a gofalwyr plant sydd i fod i ddechrau'r ysgol ym mis Medi neu eu hysbysu nad yw plentyn wedi cael cynnig unrhyw un o'i ddewisiadau ysgol. Bydd rhieni a gofalwyr yn cael gwybod am ganlyniad eu cais drwy bost dosbarth cyntaf neu e-bost.

Bydd pob rhiant a gofalwr y gwrthodir lle i'w plentyn mewn unrhyw ddewis ysgol yn cael ffurflen dewis arall, manylion ysgolion sydd â lleoedd gwag a gwybodaeth am eu hawl i apelio yn erbyn penderfyniad y Cyngor.

Gofynnir i rieni a gofalwyr ymateb i'r cynnig o le yn uniongyrchol i'r Awdurdod Lleol heb fod yn hwyrach na 14 diwrnod ar ôl y Diwrnod Cynnig Cenedlaethol.

### 3.3 Rhestrau Aros

Pan wrthodir derbyn ymgeisydd i ysgol gynradd gymunedol neu wirfoddol a reolir, bydd yr ymgeisydd yn cael ei roi ar y rhestr aros ar gyfer yr ysgol ddewis dan sylw tan 30 Medi oni bai bod yr ymgeisydd yn hysbysu'r Cyngor y dylid tynnu eu plentyn oddi ar y rhestr aros.

Os yw rhiant yn dymuno i'w blentyn barhau i gael ei ystyried i'w dderbyn i'r ysgol dan sylw ar ôl y dyddiad terfyn y rhestr aros, bydd rhaid cyflwyno cais newydd.

Ar gyfer ysgolion cynradd gwirfoddol a gynorthwyir yng Nghaerdydd, Corff Llywodraethu'r ysgol fydd yn gweinyddu'r rhestr aros.

## 4. Derbyn i Ysgol Uwchradd (Blwyddyn 7)

Bydd y Ffurflen Gais Gyffredin yn caniatáu i rieni a gofalwyr restru hyd at bum dewis ar gyfer derbyn i Flwyddyn 7. Mae'r rhain yn ddewisiadau wedi'u graddio (hy dewis cyntaf, ail ddewis, ac ati) ond mae penderfynu ar leoedd yn erbyn dewisiadau a ffefrir yn cael eu trin yn gyfartal (y Cynllun Dewis Cyfartal). Mewn geiriau eraill, ystyrir y ceisiadau dan y rheolau derbyn ar gyfer pob ysgol unigol ac ni ddefnyddir y drefn y graddiwyd yr ysgol fel maen prawf os yw'r ysgol a ddewiswyd wedi'i gordanysgrifio. Gall rhieni a gofalwyr sy'n dymuno rhestru mwy na phum dewis wneud hynny trwy e-bostio derbyniysgolion@caerdydd.gov.uk.

Pan fo lleoedd ar gael, mae'n rhaid i'r dewis uchaf a nodwyd gael ei fodloni. Pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael, defnyddir y meini prawf gordanysgrifio perthnasol i raddio trefn y ceisiadau. Dim ond y lle ysgol sy'n ddewis uchaf y maent yn gymwys i'w gael sy'n cael ei gynnig i ddisgyblion. Pan ellir cynnig lle i ddisgybl mewn mwy nag un ysgol bydd yn derbyn un cynnig gennym ar gyfer yr ysgol sydd yn y safle uchaf ar y cais.

## 4.1 Y Broses Ddyrannu

Bydd Cyngor Caerdydd yn anfon manylion ceisiadau a wneir gan ymgeiswyr sy'n preswylio yng Nghaerdydd sydd wedi mynegi dewis ysgol mewn ardal Awdurdod Lleol arall at yr Awdurdodau Lleol perthnasol erbyn y Dyddiad Cyfnewid Data Traws-Sirol. Bydd manylion y cais yn cynnwys yr holl wybodaeth a ddarperir gan y rhiant i gefnogi'r cais a safle’r dewis (safle cyntaf, ail, trydydd, pedwerydd neu bumed safle).

Bydd Cyngor Caerdydd yn anfon manylion ceisiadau, lle mae'r ysgol wedi'i rhestru fel dewis, i’r ysgolion uwchradd sefydledig a gwirfoddol a gynorthwyir perthnasol yng Nghaerdydd erbyn y Dyddiad Anfon Data o fewn y Sir. Bydd manylion y cais yn cynnwys yr holl wybodaeth a ddarperir gan y rhiant i gefnogi'r cais ond **<u>ni fydd</u>** yn cynnwys safle’r dewis (safle cyntaf, ail, trydydd, pedwerydd neu bumed safle). Cyrff Llywodraethu'r ysgolion hyn sy’n gyfrifol am ddefnyddio’r meini prawf gordanysgrifio, os oes mwy o ymgeiswyr na lleoedd, ac hefyd am benderfynu yn ôl pa drefn raddio y cynigir lle i blant.

Bydd Cyrff Llywodraethu'r ysgolion uwchradd sefydledig a gwirfoddol a gynorthwyir yn cymhwyso eu trefniadau derbyn cyhoeddedig ac yn darparu'r rhestr wedi’i graddio i Gyngor Caerdydd erbyn y Dyddiad Derbyn Data o fewn y Sir. Bydd y rhestr wedi’i graddio yn cynnwys pob ymgeisydd ar gyfer yr ysgol, ni waeth p’un a yw'r Awdurdod Derbyn yn credu y gellir neu y dylid cynnig lle yn ystod y broses ddyrannu ai peidio.

Bydd y broses ddyrannu yn dechrau pan fydd Cyngor Caerdydd wedi derbyn y rhestr gan bob ysgol uwchradd sefydledig a gwirfoddol a gynorthwyir. Bydd yr holl ddewisiadau yn cael eu hystyried yn yr un modd i ddechrau waeth beth fo'u safle. Bydd y safle'n cael ei ddefnyddio i sicrhau bod pob plentyn y gellir cynnig lle iddo yn derbyn un cynnig yn unig ar gyfer yr ysgol sydd yn y safle uchaf y maent yn gymwys i’w mynychu. Bydd unrhyw ymgeisydd y gellir cynnig lle iddo yn ei ysgol ddewis gyntaf yn cael y lle hwnnw wedi ei ddyrannu iddo. Bydd unrhyw ddewisiadau is y gellid fod wedi'u cynnig iddynt hefyd yn cael eu rhyddhau fel eu bod ar gael fel rhan o'r broses ddyrannu i ymgeisydd nad oedd modd cynnig lle yn yr ysgol honno iddo yn flaenorol.

Bydd y broses ddyrannu yn ail-lenwi’n awtomatig y lleoedd hynny sy'n dod ar gael mewn ysgolion sydd wedi’u gordanysgrifio gyda'r ymgeisydd sydd nesaf ar restr yr ysgol honno. Bydd y broses hon yn cael ei chynnal nes bod gan bob ymgeisydd statws cynnig dros dro ar gyfer pob dewis ysgol a restrir ar eu cais ac ni ellir gwneud unrhyw newidiadau pellach. I rai ymgeiswyr efallai na fydd wedi bod yn bosibl cynnig lle yn unrhyw un o'r ysgolion a restrwyd fel dewisiadau ar eu cais.

Erbyn Dyddiad Hysbysu’r Awdurdod Derbyn bydd Cyngor Caerdydd yn hysbysu Awdurdodau Lleol eraill am statws cynnig dros dro’r ceisiadau ar gyfer ysgolion uwchradd yng Nghaerdydd gan ymgeiswyr sy'n preswylio yn ardaloedd yr Awdurdodau Lleol hynny. Bydd Awdurdodau Lleol eraill yn hysbysu Cyngor Caerdydd am statws cynnig dros dro ymgeiswyr sy'n preswylio

yng Nghaerdydd ac sydd wedi gwneud cais am ysgol uwchradd yn ardal yr Awdurdod Lleol arall erbyn yr un dyddiad.

Gan ddefnyddio'r rhestrau wedi'u graddio a dderbynnir gan ysgolion uwchradd sefydledig a gwirfoddol a gynorthwyir yng Nghaerdydd a'r wybodaeth a dderbynnir gan Awdurdodau Lleol eraill, bydd Cyngor Caerdydd yn gweithredu fel a ganlyn:

- Pan fo'r ymgeisydd ond yn gymwys i gael lle yn un o'r ysgolion dewis, dyrennir lle yn yr ysgol honno i'r ymgeisydd
- Pan fo'r ymgeisydd yn gymwys i gael lle mewn dau neu fwy o'r ysgolion dewis, dyrennir lle ym mha ysgol bynnag yw'r dewis uchaf
- Pan nad yw'r ymgeisydd yn gymwys i gael lle yn unrhyw un o'r ysgolion dewis, ni chaiff lle ei ddyrannu

Erbyn Dyddiad Hysbysu yr Awdurdod Derbyn, bydd pob ysgol sefydledig a gwirfoddol a gynorthwyir yng Nghaerdydd yn cael gwybod am yr holl gynigion terfynol a wneir hyd at y nifer derbyn ar gyfer pob ysgol. Ni fydd ysgolion yn rhoi gwybod i rieni a gofalwyr am ganlyniadau'r broses ymgeisio.

Pan fydd y broses ddyrannu wedi'i chwblhau, bydd Cyngor Caerdydd yn creu adroddiad o'r ysgolion uwchradd cymunedol sydd â lleoedd ar gael o hyd fel y gellir cyhoeddi'r wybodaeth ar y Diwrnod Cynnig a chaiff copïau o'r adroddiad eu hanfon at rieni plant na chawsant gynnig lle mewn ysgol o'r rhai a rhestrwyd fel dewisiadau ar eu cais.

## 4.2 Y Broses Gynnig

Ar y Diwrnod Cynnig Cenedlaethol, bydd yr Awdurdod Lleol yn cynnig un lle mewn ysgol gynradd i rieni a gofalwyr plant sydd i fod i ddechrau'r ysgol ym mis Medi neu yn eu hysbysu nad yw plentyn wedi cael cynnig unrhyw un o'i ddewisiadau ysgol. Bydd rhieni a gofalwyr yn cael gwybod am ganlyniad eu cais drwy bost dosbarth cyntaf neu e-bost.

Bydd pob rhiant a gofalwr y gwrthodir lle i'w plentyn mewn unrhyw ddewis ysgol yn cael ffurflen dewis arall, manylion ysgolion sydd â lleoedd gwag a gwybodaeth am eu hawl i apelio yn erbyn penderfyniad y Cyngor.

Gofynnir i rieni a gofalwyr ymateb i'r cynnig o le yn uniongyrchol i'r Awdurdod Lleol heb fod yn hwyrach na 14 diwrnod ar ôl y Diwrnod Cynnig Cenedlaethol.

## 4.3 Rhestrau Aros

Pan wrthodir derbyn ymgeisydd i ysgol uwchradd gymunedol, bydd yr ymgeisydd yn cael ei roi ar y rhestr aros ar gyfer yr ysgol dewis dan sylw tan 30 Medi oni bai bod yr ymgeisydd yn hysbysu'r Cyngor y dylid tynnu plentyn oddi ar y rhestr aros.

Os yw rhiant yn dymuno i blentyn barhau i gael ei ystyried i'w dderbyn i'r ysgol honno ar ôl dyddiad terfyn y rhestr aros, bydd yn rhaid cyflwyno cais newydd.

Ar gyfer ysgolion uwchradd sefydledig a gwirfoddol a gynorthwyir yng Nghaerdydd, Corff Llywodraethu'r ysgol fydd yn gweinyddu'r rhestr aros.

## 5 Amserlen Derbyniadau Cydlynol ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2027/2028

Mae'r amserlen ganlynol yn nodi'r dyddiadau cau terfynol ar gyfer camau'r broses derbyniadau cydlynol. Mae Cyngor Caerdydd yn cytuno ar y dyddiadau hyn ac yn ymgynghori arnynt bob blwyddyn.

Mae'r dyddiadau cyflwyno a dyddiadau'r diwrnod cynnig cenedlaethol fel y'u cyhoeddwyd yn Rheoliadau Addysg (Cydlynu Trefniadau Derbyn Ysgolion a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024.

| **Dyddiad** | **Addysg** | **Addysg** |
|---|---|---|
| **Dyddiad Cau** ar gyfer yr holl geisiadau 'mewn pryd' | 15 Ionawr 2027 | 30 Hydref 2026 |
| **Data Traws Sirol Dyddiad Cyfnewid** Cyngor Caerdydd i anfon manylion ceisiadau i Awdurdodau Lleol eraill o'r dewisiadau a fynegwyd ar gyfer ysgolion yn eu hardaloedd hwy. | 29 Ionawr 2027 | 13 Tachwedd 2026 |
| **Dyddiad Anfon Data o Fewn y Sir** Cyngor Caerdydd i anfon manylion ceisiadau a dderbyniwyd i ysgolion sefydledig a gwirfoddol a gynorthwyir.<br><br>Manylion nifer y ceisiadau a dderbyniwyd i'w hanfon i ysgolion cymunedol a gwirfoddol a reolir. | 5 Mawrth 2027 | 18 Rhagfyr 2026 |
| **Dyddiad Derbyn Data o Fewn y Sir** Cyrff Llywodraethu ysgolion sefydledig a | 19 Mawrth 2027 | 29 Ionawr 2027 |

| | | |
|---|---|---|
| gwirfoddol a gynorthwyir i anfon rhestr wedi'i graddio o ymgeiswyr i Gyngor Caerdydd. | | |
| **Dyddiad Hysbysu Awdurdod Derbyn** Cwblhau'r broses ddyrannu a hysbysu Awdurdodau Lleol eraill am leoedd mewn ysgolion yng Nghaerdydd sydd i'w cynnig i'w preswylwyr hwy.<br><br>Rhoi gwybod i Gyrff Llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig am leoedd i'w cynnig i'w hymgeiswyr hwy. | 02 Ebrill 2027 | 12 Chwefror 2027 |
| **Diwrnod y Cynnig Cenedlaethol** Anfon e-byst a llythyrau at ymgeiswyr. | 16 Ebrill 2027 | 01 Mawrth 2027 |